Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Feithrin Hen Heol
Ysgol Hen Heol
Hen Heol
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 3HW

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Feithrin Hen Heol

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Ysgol Feithrin Hen Heol |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Non Neave |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Unigolyn â gofal | Eleanor Strawbridge |
| Nifer y lleoedd | 22 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 7 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener,<br>8.50am – 11.50am |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Nac ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion y plant sy'n defnyddio, neu'n bwriadu, defnyddio eu gwasanaeth. Rydym yn argymell y dylai darparwr y gwasanaeth ystyried 'Mwy na Geiriau: canllawiau strategol dilynol ar gyfer y |

| | |
|---|---|
| | Gymraeg mewn gofal cymdeithasol' Llywodraeth Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 03/07/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 26/02/2020 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Mae iaith weithredol y lleoliad wedi newid o Gymraeg i Saesneg ers arolygiad blaenorol AGC. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau plant yn yr ardal awyr agored

A2 Sicrhau bod cynllunio gwelliant yn canolbwyntio'n graffach ar dargedau sydd â graddfeydd amser, costau a meini prawf clir ar gyfer llwyddiant

A3 Sicrhau bod y broses arfarnu yn cynhyrchu targedau mwy penodol ar gyfer gwella i ymarferwyr

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan bron bob un o'r plant lais cryf yn yr ysgol feithrin, a gwnânt ddewisiadau a phenderfyniadau hyderus am eu chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, mae bron pob un o'r plant yn mynegi'n hyderus ble maent eisiau chwarae nesaf yn ystod sesiynau grŵp cyfan. Maent yn cyfrannu'n dda at gynllunio gweithgareddau, ac fe gaiff eu safbwyntiau a'u barn eu gwerthfawrogi gan ymarferwyr.

Mae bron pob un o'r plant yn teimlo'n hapus ac wedi ymlacio yn yr ysgol feithrin. Maent yn gwybod yr arferion yn dda ac yn ymgynefino'n gyflym wedi iddynt gyrraedd. Maent yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau. Er enghraifft, maent yn rhoi'r gorau i'r hyn y maent yn ei wneud pan gânt eu hannog gan ymarferwyr i dacluso ar ôl gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gydag ymarferwyr a chyfoedion, ac yn mynd at staff i ddweud newyddion wrthynt neu ofyn am rywbeth. Maent yn mynegi eu mwynhad trwy wenu a chwerthin, ac maent yn frwdfrydig iawn ynglŷn â'u cyfnod yn yr ysgol feithrin.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn eithriadol o dda. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio 'plîs' a 'diolch' heb gael eu hysgogi, ac yn parchu ei gilydd ac ymarferwyr. Mae llawer o blant yn cymryd eu tro ac yn rhannu adnoddau'n dda, er enghraifft wrth helpu ei gilydd i lenwi potel â reis. Gall ychydig o blant adnabod pan fydd plant eraill yn bryderus neu'n ansicr. Er enghraifft, cymerodd plentyn law plentyn arall, a'i harwain at y mat ar gyfer amser cylch, a'i helpu i wisgo'i chôt.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau eu cyfnod yn yr ysgol feithrin yn fawr, ac yn ymgymryd yn briodol â gweithgareddau. Maent yn mwynhau symud o un gweithgaredd i'r nesaf, ac yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau da. Er enghraifft, mae grŵp o blant yn chwarae rôl yn frwdfrydig â'r dreigiau, gan eu cuddio o dan y coed ac ar y twnnel, a gwneud synau rhuo. Mae llawer o blant yn ymuno'n frwdfrydig â chanu ac amser cylch yn Gymraeg a Saesneg, ac mae rhai ohonynt yn parhau i ganu yn ystod eu chwarae.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibyniaeth a hunangymorth rhagorol. Mae bron pob un o'r plant yn gwisgo eu cotiau eu hunain, yn defnyddio'r toiled yn annibynnol, ac yn golchi a sychu eu dwylo. Mae bron pob un o'r plant yn rhoi menyn ar eu tost eu hunain, yn torri eu banana ac yn arllwys llaeth i mewn i'w cwpanau heb gymorth ymarferwyr. Mae ychydig ohonynt hefyd yn golchi a sychu'r platiau a'r cwpanau ar ôl amser byrbryd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau o'u mannau cychwyn, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau gwrando da iawn, ac yn dilyn cyfarwyddiadau gan ddeall y tro cyntaf y gofynnir iddynt, er enghraifft pan ofynnir iddynt ddod i'r carped, ffurfio llinell ar yr iard yn barod ar gyfer dychwelyd i'r ysgol feithrin neu wrth helpu paratoi cymysgedd crempog. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad ag oedolion yn hyderus wrth siarad am eu teimladau, gan ddisgrifio'r hyn y maent yn ei wneud yn ystod gweithgareddau neu wrth drafod y tywydd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymuno'n frwdfrydig â chaneuon yn Gymraeg a Saesneg, ac mae llawer ohonynt yn gwybod y geiriau i ganeuon a rhigymau cyfarwydd. Er enghraifft, dechreuodd un plentyn ganu "Rain, rain go away" yn annibynnol pan sylwodd ei bod wedi dechrau bwrw glaw y tu allan. Mae llawer ohonynt yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau yn hyderus, ac yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn dda. Maent yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau mawr a bach â rheolaeth gynyddol, ac yn deall bod gan farciau ar bapur ystyr i'r darllenydd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau storïau ac yn adnabod cymeriadau o storïau diweddar, er enghraifft wrth chwarae â llwyau cymeriad neu flwch stori. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i greu eu storïau eu hunain sydd â dechrau, canol a diwedd. Hefyd, maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddatrys problem sy'n wynebu un o'r cymeriadau, fel siarc sy'n bygwth môr-forwyn mewn stori dan y dŵr. Mae llawer o blant yn dangos diddordeb mewn edrych ar lyfrau yn annibynnol, ac yn eistedd am gyfnodau estynedig wrth edrych ar lyfrau gydag oedolion.

Mae medrau rhifedd llawer o blant yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfrif i bump yn hyderus, ac mae lleiafrif ohonynt yn gallu cyfrif i ddeg a thu hwnt, ac yn ceisio cyfrif yn ôl i sero. Defnyddiant iaith fathemategol fel 'llawn' a 'gwag' yn gywir, er enghraifft wrth lenwi poteli a chynwysyddion â gronynnau reis, a gallant wahaniaethu rhwng gwrthrychau mawr a bach fel 'wiggly worms' mewn jeli yn gywir. Mae llawer ohonynt yn adnabod lliwiau a rhifau yn gywir, yn ogystal ag adnabod siapiau sylfaenol fel cylchoedd, sgwariau a thrionglau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol ac yn hyderus i ymestyn eu dysgu. Maent yn defnyddio camerâu a chyfrifiaduron llechen i dynnu lluniau ac yn defnyddio meddalwedd syml i ychwanegu delweddau at ffotograffau. Maent yn dechrau rheoli cyfeiriad tegan rhaglenadwy yn annibynnol trwy bwyso'r botymau priodol, ac maent yn ymwybodol fod angen batris sydd wedi'u gwefru'n llawn ar offer electronig, er mwyn iddynt weithio'n iawn.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n briodol. Yn ystod chwarae yn yr awyr agored, maent yn gwthio a rheoli treisiclau a sgwteri, ac yn defnyddio llithrennau bach yn fedrus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o ran datblygu medrau Cymraeg sylfaenol. Maent yn ymateb yn hyderus i gyfarchion a chyfarwyddiadau oedolion, fel 'amser tacluso'. Gall y rhan fwyaf ohonynt siarad ynglŷn â sut mae'r tywydd y tu

allan. Mae bron pob un o'r plant yn gwybod amrywiaeth dda o ganeuon a rhigymau yn Gymraeg, ac yn ymuno â'r oedolion.

Mae llawer o blant yn dechrau datblygu medrau datrys problemau effeithiol. Er enghraifft, maent yn arbrofi â cheir a pheli o feintiau gwahanol yn teithio i lawr trwy wahanol bibellau draen, gan eu newid i weld pa rai sy'n ffitio ac yn teithio i lawr yn well.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn ffurfio perthynas waith agos iawn gyda'r plant. Maent yn darparu gofal a chymorth da iawn ar gyfer plant yn yr ysgol feithrin. Maent yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u hanghenion a'u ffafriaethau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sy'n dewis peidio â chymryd rhan mewn tasgau penodol, trwy ganiatáu iddynt ddewis eu tasgau eu hunain. Mae ymarferwyr yn falch o'r cynnydd a wna plant yn yr ysgol feithrin, ac maent yn angerddol ynglŷn â darparu gofal eithriadol o dda a gweld plant yn ffynnu. Maent yn casglu gwybodaeth am arferion unigol plant gan rieni pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol feithrin, er enghraifft trwy ddefnyddio'r llyfryn 'gwybodaeth bwysig amdana' i'.

Mae ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad, ac yn gweithredu fel modelau rôl da. Maent yn gwrando'n dda ar safbwyntiau plant, ac yn ymateb yn dda i'w hanghenion. Mae rhyngweithio'r ymarferwyr â'r plant yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn llwyddo i dawelu meddyliau plant sy'n bryderus trwy roi gweithgareddau diddorol iddynt, ac maent yn poeni'n ddiffuant am eu teimladau. Mae ymarferwyr yn dangos urddas a pharch tuag at blant. Er enghraifft, pan fydd angen newid cewyn plentyn, caiff hyn ei wneud mewn modd sensitif.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn effeithiol. Maent yn cynnig byrbrydau a diodydd iach a maethlon, sy'n cynnwys ffrwythau ffres, llaeth a dŵr. Mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd da i blant ddatblygu ffyrdd iach o fyw, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol rheolaidd, gan sicrhau bod dŵr yfed ar gael yn rhwydd, a bod y plant yn brwsio eu dannedd bob dydd. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid llym bob amser, ac fe gaiff hyn ei ymgorffori ymhlith y plant o fewn eu harferion dyddiol. Mae ymarferwyr yn nodi ac yn cael gwared â risgiau yn effeithiol, a chynhelir gwiriadau bob dydd. Cynhelir gwiriadau diogelwch pan fydd plant yn chwarae yn yr awyr agored, sy'n cynnwys cyfrif pennau pob un o'r plant wrth iddynt fynd y tu allan a phan fyddant yn dychwelyd y tu mewn gyda'r plant fel gweithgaredd cyfrif hwyliog. Mae ymarferwyr yn cadw cofnod manwl o'r holl ddigwyddiadau a damweiniau, ac yn sicrhau eu bod yn cael eu llofnodi gan rieni ac ymarferwyr.

Mae pob un o'r ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant diogelu perthnasol a chyfoes, ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae pob un ohonynt yn gyfarwydd â pholisi diogelu'r ysgol feithrin, ac yn trafod gweithdrefnau ar gyfer cyfeirio pryderon

yn hyderus.  Mae trefniadau'r ysgol feithrin ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da**

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod ddifyr ac ysgogol o weithgareddau dysgu ffocysedig ac annibynnol sy'n adlewyrchu egwyddorion y cyfnod sylfaen yn dda. Maent yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau plant ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, mae plant yn datblygu eu medrau rhifedd a'u medrau echddygol manwl yn dda trwy ddefnyddio gwahanol offer i lenwi cynwysyddion amrywiol â reis a grawnfwyd brecwast, a'u pwyso.  Mae ymarferwyr yn chwarae ochr yn ochr â'r plant ac yn ymyrryd yn fedrus i sicrhau bod medrau rhifedd, datrys problemau a medrau echddygol manwl plant yn datblygu wrth iddynt chwarae.  Maent yn cynnwys plant yn dda mewn cyfrannu syniadau ar gyfer themâu, ac yn addasu eu cynllunio ar fyr rybudd i fodloni syniadau a chwilfrydedd plant.  Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cyflwyno gweithgareddau yn ymwneud â phryfed cop a gweoedd i ymateb i blentyn sy'n cyffroi ynghylch pry cop yn cuddio y tu ôl i reiddiadur.  Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau plant yn yr ardal awyr agored.  O ganlyniad, ni chaiff plant y cyfleoedd i ehangu eu medrau cystal ag y cânt yn yr amgylchedd dan do.

Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o arfer dda yn y cyfnod sylfaen, ac yn darparu cyfleoedd da i blant ddysgu trwy chwarae ac ymglymiad gweithredol. Mae ymarferwyr yn defnyddio holi yn effeithiol iawn i ymestyn dysgu'r plant a datblygu eu medrau meddwl.  Maent yn annog plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau, ac yn gwrando arnynt yn amyneddgar ac â diddordeb.  Mae ymarferwyr yn fedrus iawn o ran gwybod pryd i ymyrryd a phryd i adael i blant ddarganfod pethau drostynt eu hunain.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd o ansawdd da i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh plant, mewn gweithgareddau dysgu ffurfiol a thrwy gydol y dydd.  Er enghraifft, mae plant yn ymarfer medrau rhif a chyfrif yn llwyddiannus wrth dorri ffrwythau neu ffurfio llinell yn barod i fynd i mewn i'r ysgol feithrin, neu allan oddi yno.

Mae ymarferwyr yn asesu a chofnodi cynnydd plant yn gywir.  Defnyddiant yr asesiadau hyn yn dda i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r plant.  Mae ymarferwyr yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn dda am gynnydd eu plentyn.

Mae'r ysgol feithrin yn cefnogi datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol plant yn dda iawn.  Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau difyr i helpu plant i ddeall gwahanol ddathliadau ac arferion o ddiwylliannau eraill.  Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad ysbrydol plant yn dda. Maent yn rhoi llawer o gyfleoedd o ansawdd da i blant fel eu bod yn datblygu dealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau, fel Lesotho, Sbaen, Tsieina a Chymru.  Hefyd, maent yn darparu cyfleoedd i blant gyfrannu at elusen leol er mwyn datblygu eu hymwybyddiaeth o bobl sy'n llai ffodus na nhw eu hunain.  Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o ystod addas o ymwelwyr â'r ysgol feithrin i ymestyn y cwricwlwm.  Er enghraifft, daeth un o'r neiniau/teidiau sy'n defnyddio cadair olwyn i'r

ysgol feithrin i drafod sut beth oedd defnyddio cadair olwyn, ac amlygu cynhwysiant yn y gymuned.

Mae'r ysgol feithrin yn cefnogi datblygiad plant o ran y Gymraeg yn dda. Mae ymarferwyr yn defnyddio geiriau ac ymadroddion syml yn barhaus trwy gydol y sesiwn mewn modd pwrpasol, ac yn annog plant i ateb. Er enghraifft, maent yn trafod y tywydd ac yn cyfrif gwahanol wrthrychau. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd addas i blant ddysgu am ddiwylliant Cymru, fel dathlu Dydd Santes Dwynwen, ac ymweld â Chastell Cydweli. Gwahoddir rhieni i'r ysgol feithrin i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a chreu emblemau Cymru, fel cennin Pedr a chennin, gyda'u plant.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r ysgol feithrin yn groesawgar a chyfeillgar, ac mae'n darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o'r ystafell i ddarparu ardaloedd dysgu trefnus y gall plant eu defnyddio yn annibynnol, er enghraifft yr ardal chwarae blociau a'r ardal ddarllen. Hefyd, mae digonedd o le i gefnogi gweithgareddau grŵp yn dda, fel chwarae anniben, coginio neu amser stori. Mae hyn yn cefnogi datblygiad medrau plant ar draws y cwricwlwm yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd addas, diogel, saff a glân ar gyfer plant. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn gweithredu rhagofalon diogelwch yn effeithiol, fel gwirio'r ardal yn yr awyr agored cyn i blant ei defnyddio i gael gwared â pheryglon. Mae arweinwyr yn cadw cofnod o'r holl blant, staff ac ymwelwyr, yn sicrhau bod prif ddrysau yn cael eu cadw ar glo, ac yn gweithredu system gadarn ar gyfer rheoli mynediad at y safle.

Mae'r amgylchedd awyr agored yn rhoi gofod a chyfle priodol i blant fod yn weithredol yn gorfforol, a chael awyr iach. Fodd bynnag, gan fod mynediad at yr ardal y tu allan wedi'i gyfyngu i hanner awr bob dydd, ac yn cael ei rhannu â'r ysgol, nid yw plant bob amser yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau corfforol.

Mae gan yr ysgol feithrin ystod eang o adnoddau o ansawdd da, sy'n briodol i oedran, sy'n cael eu cynnal a'u storio'n dda lle gall plant eu cyrraedd yn hawdd. Mae ardaloedd yn cynnwys chwarae rôl a hambyrddau twff (*tuff trays*), sy'n cynnwys eitemau go iawn, fel offer cegin a bwyd. Mae hyn yn sbarduno diddordebau a chwilfrydedd plant yn effeithiol. Mae'r dodrefn yn briodol i oedran, sy'n hyrwyddo annibyniaeth plant yn dda, ac yn sicrhau bod plant yn gyfforddus wrth chwarae a dysgu.

Mae'r ysgol feithrin yn darparu adnoddau a chyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan annog plant i ddysgu am ystod o ddiwylliannau a'r gwahaniaethau rhwng pobl. Mae hyn yn cynnwys detholiad buddiol o lyfrau, doliau a chymeriadau byd bach.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan yr ymarferwr arweiniol weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol feithrin, sy'n seiliedig ar sicrhau bod y plant yn hapus, yn ymholgar a chwilfrydig.  Mae hi'n angerddol ynglŷn â pharatoi plant i fod yn annibynnol a dysgu hyd eithaf eu gallu mewn amgylchedd ysgogol, diogel a difyr.  Mae hi'n sicrhau eu bod yn cael profiadau chwarae a dysgu cyflawn wrth eu paratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.  Mae'r ymarferwr arweiniol yn rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda gweithwyr proffesiynol a rhieni, ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel o staff a phlant.

Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi darlun cywir o'r hyn y mae'r ysgol feithrin yn ei gynnig.  Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn adnabod yr ysgol feithrin yn dda, ac yn cydweithio'n effeithiol i adolygu ei pherfformiad yn rheolaidd, a nodi meysydd i'w gwella.  Mae arsylwadau uniongyrchol o waith yr ysgol feithrin yn gywir a defnyddiol.  Mae ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau rhieni, a chyngor gan yr athro ymgynghorol, wrth gynllunio ar gyfer gwella.  Fodd bynnag, nid yw cynlluniau gwelliant bob amser yn ddefnyddiol gan nad ydynt yn cynnwys eglurder, costau cywir na thargedau ystyrlon ar gyfer gwella.

Mae gan yr ysgol feithrin brosesau priodol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac mae'n cyfrannu'n werthfawr tuag at gyflawni nodau ac amcanion strategol yr ysgol feithrin.  Mae arweinwyr yn defnyddio systemau arfarnu a goruchwylio'r ysgol feithrin yn dda i adolygu perfformiad ymarferwyr.  Maent yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ymarferwyr drafod a myfyrio ar ansawdd eu gwaith.  Fodd bynnag, nid oes digon o ffocws i'r targedau bob amser, ac nid ydynt yn darparu meysydd clir i'w gwella ar gyfer ymarferwyr.

Mae gan yr ysgol feithrin bartneriaethau gwerthfawr sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth, ac ar safonau plant.  Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol gyda rhieni trwy rannu gwybodaeth am gynnydd eu plant yn rheolaidd, a'u gwahodd yno i weithio ochr yn ochr â'u plant.  Hefyd, mae gan yr ysgol feithrin bartneriaeth waith fuddiol iawn â'r ysgol leol, sy'n cynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi ar y cyd, pan fydd yn berthnasol.  Mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygiad proffesiynol ymarferol, yn ogystal â gwella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau a lles plant.  Hefyd, mae'r ysgol feithrin yn elwa ar arsylwadau gan arweinydd cyfnod sylfaen yr ysgol.  Mae'r trefniadau pontio rhwng yr ysgol feithrin a'r ysgol yn gryf iawn, a chynhelir cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd gyda'r staff perthnasol, gan sicrhau bod plant yn symud o un ysgol feithrin i'r nesaf mor ddi-dor ag y bo modd.  Mae'r ymarferwr arweiniol yn cynorthwyo pontio i'r ysgol feithrin hefyd trwy gynnal grŵp rhieni a phlant bach ar brynhawn dydd Gwener.  Mae hyn yn helpu plant i ddod i adnabod yr ysgol feithrin a'r staff cyn dechrau sesiynau ffurfiol yno.  Mae'r ymarferwr arweiniol yn adnabod yr ysgol feithrin yn dda iawn.  Mae ganddi wybodaeth gadarn a thrylwyr am safonau plant, ac mae'n asesu effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn barhaus gydag aelod arall o staff, ac maent yn hysbysu'r pwyllgor am safonau yn rheolaidd.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/04/2020